Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs

# CYMell New Places Grant : From Cylch to Clwb: Growing Welsh-Medium Childcare in Bethesda

When Paige Rosser took over leadership of the Cylch, after many years under its previous management, she inherited a well-established setting that had originally registered in 2011. From the outset, Paige had a clear vision: not only to sustain the provision but also to grow it, creating more opportunities for children and families to access high-quality childcare through Welsh.

Recognising the growing need for Welsh-medium childcare beyond the school day, Paige identified expanding the existing provision as a priority. To ensure she had the skills and knowledge to lead this development, she immediately enrolled on the Level 3 Award in Transition to Playwork course with Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Demonstrating her commitment to both professional development and the Welsh language, Paige chose to complete her learning through Welsh and secured a bursary to support her studies.

*"It was very informative, and it was great not having to complete a full course. It was a useful refresher focusing on the most important information. I really appreciated the flexibility around language, with the sessions delivered in Welsh while still being able to submit my own work in English, as that is my preferred language."*

The knowledge and confidence gained through the course enabled Paige to develop plans to expand the provision beyond its existing offer. By securing CYMell funding, the Cylch has now established a brand-new Welsh medium after-school and holiday club, creating additional opportunities for children up to the age of 12 to access play through the medium of Welsh and providing families with high-quality, consistent childcare during term time and the school holidays.

Paige's commitment to learning, leadership and the Welsh language has been instrumental in transforming the Cylch's vision into reality. Her investment in her own professional development has directly contributed to increasing access to Welsh-medium childcare within the local community, strengthening opportunities for children to hear, use and enjoy Welsh in everyday play, helping to support the long-term ambitions of Cymraeg 2050.
Following a review of the local community's needs, Paige identified a clear opportunity to expand the provision to better support children attending the Cylch, their siblings, and local families.

As the Cylch feeds directly into the local primary school, Paige recognised a significant gap in childcare provision. Despite the school having a healthy number of pupils, not Out of School Childcare was available for families. Addressing this unmet need became a priority, with Paige committed to ensuring children could continue to access high-quality childcare and play opportunities through the medium of Welsh beyond the school day.
After reaching out to her local Childcare Business Development Manager, Megan Morris, Paige received support from the very beginning of the expansion journey. Working in partnership, they developed a robust financial forecast, completed a safeguarding health check, and tailored a comprehensive pre-opening checklist to meet the requirements of the Care Inspectorate Wales (CIW) variation process.
The brand-new holiday club opened its doors for the first time on Monday 3$^{rd}$ of August, and the after-school club is taking bookings for September.

*“My vision is for the club to truly become the children’s club, shaped by their ideas, interests and what they want it to be.*

*From September, the children attending will have a real say in how the club develops, including choosing what they would like us to purchase to help make the space their own. Their voices and input will be at the heart of the club.*

*"I can’t wait to hear their ideas and give something back to the community that children and families have been asking for. With the support of this grant, we have been able to make this vision possible, and I’m really excited to see how the children make the club their own”.*

Well done to all the staff at Cylch Meithrin a Clwb Ar Ol Ysgol a Gwyliau Bethesda.

This collaborative approach ensured the new provision was well planned, financially sustainable and fully compliant, giving Paige the confidence and support needed to successfully expand the Cylch's services to meet the needs of local children and families.


**Contact Us to find out more about the support Clybiau Plant Cymru Kids’ Clubs can offer your club.**

**www.clybiauplantcymru.org**

**info@clybiauplantcymru.org**

**029 2074 1000**

**Facebook**

**Twitter**

**Instagram**

## CYMell Grant Llefydd Newydd: O Gylch i Glwb - Cynyddu Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg ym Methesda

Pan gymerodd Paige Rosser yr awenau fel arweinydd y Cylch, ar ôl llawer o flynyddoedd o dan reolaeth flaenorol, etifeddodd leoliad a oedd wedi'i sefydlu'n dda ac a gofrestrwyd yn wreiddiol yn 2011. O'r dechrau, roedd gan Paige weledigaeth glir: nid yn unig cynnal y ddarpariaeth, ond hefyd ei thyfu, gan greu mwy o gyfleoedd i blant a theuluoedd gael mynediad at ofal plant o ansawdd uchel drwy'r Gymraeg.

Wrth nodi'r galw cynyddol am ofal plant cyfrwng Cymraeg y tu hwnt i ddiwrnod yr ysgol, nododd Paige ehangu'r ddarpariaeth bresennol fel blaenoriaeth. Er mwyn sicrhau bod ganddi'r sgiliau a'r wybodaeth i arwain y datblygiad hwn, ar unwaith, penderfynodd cofrestru ar y cwrs Dyfarniad mewn Trawsnewid i Waith Chwarae gyda Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs. Gan ddangos ei hymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol ac i'r Gymraeg, penderfynodd Paige gwblhau ei dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a chafodd fwrsari i gefnogi ei hastudiaethau.

*"Roedd yn addysgiadol iawn, ac roedd yn wych peidio â gorfod cwblhau cwrs llawn. Roedd yn gwrs adfywio defnyddiol a oedd yn canolbwyntio ar y wybodaeth bwysicaf. Roeddwn yn gwerthfawrogi'n fawr yr hyblygrwydd o ran iaith, gyda'r sesiynau'n cael eu cyflwyno yn Gymraeg, tra roeddwn yn gallu cyflwyno fy ngwaith fy hun yn Saesneg, oherwydd dyna yw fy iaith ddewisol."*

Mae'r wybodaeth a'r hyder a gafodd Paige drwy'r cwrs wedi ei galluogi i ddatblygu cynlluniau i ehangu'r ddarpariaeth y tu hwnt i'r cynnig presennol. Drwy sicrhau cyllid CYMell, mae'r Cylch bellach wedi sefydlu Clwb R'Ôl-Ysgol a Chlwb Gwyliau newydd sbon drwy gyfrwng y Gymraeg, gan greu cyfleoedd ychwanegol i blant hyd at 12 oed gael mynediad at chwarae drwy'r Gymraeg a darparu gofal plant cyson o ansawdd uchel i deuluoedd yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol.

Mae ymrwymiad Paige i ddysgu, arweinyddiaeth a'r Gymraeg wedi chwarae rhan allweddol wrth droi gweledigaeth y Cylch yn realiti. Mae ei buddsoddiad yn ei datblygiad proffesiynol ei hun wedi cyfrannu'n uniongyrchol at gynyddu mynediad at ofal plant cyfrwng Cymraeg yn y gymuned leol, gan gryfhau cyfleoedd i blant glywed, defnyddio a mwynhau'r Gymraeg wrth chwarae bob dydd, a helpu i gefnogi uchelgeisiau hirdymor Cymraeg 2050.
Yn dilyn adolygiad o anghenion y gymuned leol, nododd Paige gyfle clir i ehangu'r ddarpariaeth er mwyn cefnogi'n well y plant sy'n mynychu'r Cylch, eu brodyr a'u chwiorydd, a theuluoedd lleol.

Gan fod y Cylch yn bwydo'n uniongyrchol i'r ysgol gynradd leol, sylweddolodd Paige fod bwlch sylweddol yn y ddarpariaeth gofal plant. Er bod gan yr ysgol nifer iach o ddisgyblion, nid oedd unrhyw ddarpariaeth Gofal Plant All-Ysgol ar gael i deuluoedd. Daeth mynd i'r afael â'r angen hwn yn flaenoriaeth, gyda Paige wedi ymrwymo i sicrhau y gallai plant barhau i gael mynediad at ofal plant a chyfleoedd chwarae o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg y tu hwnt i ddiwrnod yr ysgol.

Ar ôl cysylltu â'i Rheolwr Datblygu Busnes Gofal Plant lleol, Megan Morris, cafodd Paige gefnogaeth o ddechrau'r broses ehangu. Gan weithio mewn partneriaeth, datblygwyd rhagolwg ariannol cadarn, cwblhawyd prawf iechyd diogelu, a lluniwyd rhestr wirio gynhwysfawr ar gyfer y cyfnod cyn agor er mwyn bodloni gofynion proses amrywio Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Agorodd y Clwb Gwyliau newydd ei ddrysau am y tro cyntaf ddydd Llun, 3 Awst, ac mae'r Clwb R'ôl Ysgol yn derbyn archebion ar gyfer mis Medi.

*"Fy ngweledigaeth yw i'r clwb ddod yn glwb y plant yn wirioneddol, wedi'i lunio gan eu syniadau, eu diddordebau a'r hyn maen nhw eisiau iddo fod.*

*O fis Medi ymlaen, bydd gan y plant sy'n mynychu lais gwirioneddol yn y ffordd y mae'r clwb yn datblygu, gan gynnwys dewis beth hoffent i ni ei brynu i helpu i wneud y gofod yn un iddyn nhw eu hunain. Bydd eu lleisiau a'u cyfraniad wrth wraidd y clwb.*

*Dwi'n edrych ymlaen yn fawr at glywed eu syniadau a rhoi rhywbeth yn ôl i'r gymuned y mae plant a theuluoedd wedi bod yn gofyn amdano. Gyda chymorth y grant hwn, rydym wedi gallu gwireddu'r weledigaeth hon, ac rwy'n edrych ymlaen i weld sut y bydd y plant yn gwneud y clwb yn un iddyn nhw eu hunain."*

Da iawn i holl staff Cylch Meithrin a Clwb R'ôl Ysgol a Gwyliau Bethesda.

Sicrhaodd y dull cydweithredol hwn fod y ddarpariaeth newydd wedi'i chynllunio'n dda, yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cydymffurfio'n llawn, gan roi i Paige yr hyder a'r gefnogaeth angenrheidiol i ehangu gwasanaethau'r Cylch yn llwyddiannus er mwyn diwallu anghenion plant a theuluoedd lleol.

**Cysylltwch â Ni i ddarganfod mwy am y gefnogaeth y gall Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs ei gynnig i'ch clwb.**

**www.clybiauplantcymru.org**

**info@clybiauplantcymru.org**

**029 2074 1000**

**Facebook**

**Twitter**

**Instagram**